

Addoli

Darllen: Salm 42:1

Beth ydi hanfodion addoliad? Rydych chi wedi troi i mewn i'r oedfa heno, ond pam? Ai awydd i blesio eich rhieni a ddaeth â chi yma? Roedden nhw'n aelodau ffyddlon a thriw, ac felly mae rhyw deimlad y dylech chithau gadw drws yr addoldy'n agored. Neu, efallai mai dyma'r peth i'w wneud er mwyn cael eich cyfrif yn aelod parchus o'r gymdeithas. Ydych chi am gael eich gweld efo pobl sy'n cyfrif yn y gymdeithas? Neu, efallai eich bod yma am fod y plant yn mynd i'r Ysgol Sul a chithau am ddangos esiampl dda iddyn nhw. A phan fydd y plant wedi tyfu, fe gewch chithau gefnu ar y cyfan. Neu efallai fod yna reswm arall digon dilys.

Ond yn ôl at y cwestiwn. Beth yw addoli? Dowch i ni feddwl am ychydig am gefnogwyr timau pêl-droed. Does dim dwywaith eu bod yn addoli eu tîm. Maen nhw'n ffyddlon i'w tîm. Bob Sadwrn, bnawn Sul neu ganol wythnos, fe'u gwelwch wrth y miloedd yn tyrru i'r cae. Maen nhw'n talu'n ddrud am gael mynediad, naill ai drwy dalu wrth y glwyd neu trwy brynu tocyn tymor fydd yn para tan y gêm olaf. Ac mae'n rhaid mynd i'r gêm wedi eu gwisgo yn lliwiau'r tîm: sgarff, crys a het yn y lliwiau iawn. Mi wn i am un cefnogwr brwd (dyn yn ei oed a'i amser) sy'n gwisgo'r dillad i gyd, hyd yn oed yr esgidiau pêl-droed, wrth wyllo ei dîm ar y teledu yn yr ystafell fyw. A gwae'r teulu pan fo'r tîm wedi colli. Ac yna, beth am y siantio a'r canu a ddaw o'r terasau? Gwrandewch yn ofalus ar y sloganau ac fe welwch fod elfennau crefyddol iddyn nhw: 'Hwn a hwn is God' neu 'Hwn a hwn is our Saviour'. Felly, oes yna rywbeth y medrwn ei ddysgu oddi wrth y cefnogwyr ffyddlon a thriw yma?

Y peth cyntaf sy'n digwydd mewn addoliad Cristnogol yw ein bod yn cydnabod mawredd a sancteiddrwydd Duw, ac yn ymateb iddo wedyn mewn gwasanaeth ac ufudd-dod. Felly, nid rhywbeth sy'n digwydd am awr ar y Sul yn unig ydi addoli; mae'n ymwneud â bywyd yn ei gyfanwaith bob dydd o'n bywyd. A Duw yn unig ydi gwrthrych ein haddoliad.

Elfen bwysig arall yw'r dyhead am Dduw, fel y dywed y Salmydd, 'Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog, felly y dyhea fy enaid amdanat ti, O Dduw' (Salm 42:1). A dyna gri Eseia hefyd, 'Deisyfaf di â'm holl galon drwy'r nos, a cheisiaf di'n daer gyda'r wawr' (Eseia 26:9). Mae'r Salmydd a'r proffwyd yn hiraethu am Dduw; mae eu golygon ar y pethau dyrchafol. Mae newyn a syched yn eu bywydau. Maen nhw'n chwilio ac yn dyheu am yr anfeidrol. Drwy addoli, down yn nes at Dduw; a thrwy chwilio, mewn gweddi, myfyrdod a darllen y Gair y down o hyd iddo.

Wrth i ni ddyrchafu a mawrygu Duw, a'i gydnabod yn Arglwydd, fe gawn ni ein hunain ein dyrchafu. Mae Duw yn ein codi ato'i hun ac yn tywallt yr elfennau sy'n perthyn iddo ef arnom ni. Mae'n tywallt ei gariad a'i ras arnom, ac felly'n peri i ni dyfu'n fwy tebyg iddo. Drwy addoli'n gyson y mae meithrin a datblygu arferion a delfrydau da ac aruchel. Mae addoli yn ein gwneud yn Dduw-debyg.

Myfyrdod pellach:

Beth yw prif elfennau addoliad yn eich barn chi? Beth fedrwn ni ei ddysgu oddi wrth gefnogwyr pêl-droed?

Pa mor bwysig ydi (a) addoli ar eich pen eich hun, a (b) cydaddoli. Ydi un ohonyn nhw'n bwysicach na'r llall?